# *Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a'r Cwricwlwm i Gymru (2022): Synergeddau a Chyfleoedd*

Dr Clive Underwood, Prifysgol Bangor
Yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor
Dr Anne-Marie Smith, Prifysgol John Moores Lerpwl
Dr Nia Williams, Prifysgol Bangor
Dr Fliss Kyffin, Prifysgol Bangor
Dr Nia Young, Prifysgol Bangor

CRYNODEB

Yn y papur hwn, rydym yn amlinellu'r maes academaidd a elwir yn Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid, maes amlddisgyblaethol a rhyngwladol sy'n rhoi profiad bywyd plant a phobl ifanc wrth galon a chraidd trafodaethau, ymchwil ac ymarfer. Dros y 30-40 mlynedd diwethaf, mae Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid wedi datblygu'n faes ysgolheictod arwahanol sy'n cael ei ddylanwadu gan syniadau sy'n deillio o feysydd cymdeithaseg, anthropoleg, seicoleg, daearyddiaeth a hanes. Mae ein papur yn trafod pa mor berthnasol yw'r syniadau allweddol hyn i waith athrawon ac arweinwyr ysgolion o fewn cyd-destun y Cwricwlwm i Gymru (2022), lle rhoddir y plentyn wrth galon a chraidd dull cyfannol o ymdrin ag addysg. Mae hyn yn cynnig cyfle i gydnabod synergeddau posibl rhwng addysg ac Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid fel disgyblaethau perthynol a chydategol.

Awgrymwn fod yna ddadl y dylai pob athro a darparwr addysg gychwynnol i athrawon (AGA) ddeall Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ac ymwneud â'r maes academaidd hwn – maes sy'n canolbwyntio ar gydnabod bod plant a phobl ifanc yn fodau cymdeithasol a chanddynt hawliau a gallu edd mewn cymdeithas. Tynnwn sylw at

*https://doi.org/10.16922/wje.26.1.1cym*

faterion a meysydd allweddol sy'n berthnasol i waith athrawon, arweinwyr ysgolion ac addysgwyr ar draws gwahanol gyd-destunau, gan ddangos sut y gall Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid weithredu fel pont rhwng ysgolion a byd cymdeithasol ehangach plant a phobl ifanc, trwy gyfrwng ymchwil ac addysgu sy'n ymwneud â materion sy'n berthnasol i blentyndod ac ieuenctid cyfoes. Fel gwrŵp o ddarlithwyr sy'n addysgu cyrsiau gradd ac ôl-radd Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid, cynigiwn fod angen gwell deialog a dealltwriaeth rhwng Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid fel maes ysgolheictod ar y naill law ac addysg gychwynnol i athrawon ar y llaw arall.

**Geiriau allweddol:** Addysg, Addysg Gychwynnol i Athrawon, Astudiaethau Plentyndod, Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid, Cwricwlwm i Gymru 2022, Cysylltiadau Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ac Addysg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Synergeddau, Amlddisgyblaethol

## *Cyflwyniad*

Fel maes astudio cymharol newydd, yn gysyniadol ac o ran disgyblaeth academaidd, yn aml caiff perthnasedd Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ei fychanu. Fodd bynnag, fel y nodir gan Morrow (yn Cook, 2018), erbyn hyn mae disgyblaethau eraill yn rhoi mwy o sylw i'r maes hwn a cheir datblygiadau arbennig o ran y ddaearyddiaeth a'r gyfraith sy'n berthnasol i blant yn enwedig trwy gyfrwng yr *International Journal of Children's Rights* a'r cyfnodolyn *Children's Geographies*. Mewn sefydliadau addysg uwch ledled y DU a thu hwnt, mae'n bosibl bod y pwnc yn cael ei addysgu oddi mewn i Adrannau Addysg neu Waith Cymdeithasol, er enghraifft, ac efallai y defnyddir teitlau eraill ar ei gyfer, fel 'Astudiaethau plentyndod cynnar', 'Gweithio gyda phlant a theuluoedd' neu 'Astudiaethau plentyndod ac ieuenctid'. Fel tîm o ddarlithwyr sy'n addysgu'r pwnc olaf ar lefel gradd ac ôl-radd, rydym yn awyddus i ymuno â'r lleisiau eraill i draethu rhinweddau'r maes amlddisgyblaethol hwn. Rydym yn addysgu cwrs gradd Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid mewn Adran Addysg, ac fel y nododd Prout (2019) yn ddiweddar, cyfyd hyn heriau a chyfleoedd. Mae'r her gyffredin, o bosibl, yn seiliedig ar ganfyddiadau o'r cwrs sy'n cydweddu Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ag 'addysg ac

addysgu' mewn ystyr eang, yn hytrach na'i ystyried fel maes astudiaeth, ymchwil ac ysgolheictod penodol yn ei rinwedd ei hun. Mae'r safbwyntiau unigryw ar blentyndod sy'n nodweddu'r ddisgyblaeth yn cynnig cyfleoedd lu i greu rhagor o synergeddau rhwng Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ac addysg gychwynnol i athrawon. Er mwyn cynorthwyo plant trwy eu siwrnai addysg, ein dadl ganolog ni yw bod yn rhaid edrych ar y cysyniadau am blentyndod yn ogystal ag edrych ar realiti'r bydoedd cymdeithasol sy'n amgylchynu'r plentyn neu'r person ifanc. Yn ein gwaith gyda myfyrwyr, rydym wedi ymrwymo i'w paratoi ar gyfer bod yn ymarferwyr mewn nifer o wahanol rolau (ar draws amryfal gyd-destunau a lleoliadau), ond rydym wedi ymrwymo hefyd i'w cyflwyno i wahanol ffyrdd o feddwl am blant o dri safbwynt cysyniadol, sef: y plentyn fel unigolyn, cyflwr strwythurol plentyndod, a'r syniad o blentyndod fel ffurf dorfol (gweler Qvortrup, 2018). Mae'r safbwyntiau cysyniadol ac athronyddol hyn yn sail i'r maes Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ac maent yn cynnig fframwaith y gellir ei ddefnyddio i ddeall natur amlweddog bywydau plant a phobl ifanc. I gydnabod y safbwyntiau hyn, ac fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer yr astudiaeth hon, cynigiwyd y dylai pob aelod o'r tîm fapio'i is-ddisgyblaeth arbennig ei hun (gyda phob is-ddisgyblaeth yn rhan o faes amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol ehangach Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid, e.e. hawliau plant ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar blant, iechyd meddwl a llesiant, rhywedd a hunaniaeth, cynhwysiant a llenyddiaeth plant) ochr yn ochr â'r sgiliau, yr wybodaeth, y dibenion a'r gofynion allweddol a ymgorfforir yn y Cwricwlwm i Gymru (2022). Trwy adolygu materion a llenyddiaeth yn ymwneud â'r is-ddisgyblaethau hyn o fewn cyd-destun pwyntiau ffocws allweddol sy'n deillio o'r cwricwlwm newydd, bu modd pennu synergeddau posibl a chyfleoedd felly ar gyfer cydweithio rhwng Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a darpariaeth AGA. Yna, datblygwyd y meysydd hyn ar ffurf trafodaethau pellach ynglŷn â chysyniadau allweddol sy'n sail i'n dealltwriaeth o blentyndod ac addysg, fel hunaniaeth, cyfranogi ac iechyd a llesiant. Y gobaith yw y bydd y trafodaethau hyn yn sail i ddeialog barhaus a gaiff ei llywio gan safbwyntiau a syniadau a fydd yn deillio o Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a meysydd ehangach addysg ac AGA, ac y bydd trafodaethau o'r fath yn helpu i lywio'r cyd-destun ar gyfer gweithredu a datblygu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

*Astudiaethau Plentyndod: Maes astudio rhyngwladol, amlddisgyblaethol a thrylwyr*

Mae'n bosibl mai *'Beth yw plentyndod?* yw'r cwestiwn ontolegol cyntaf y gofynnir i fyfyrwyr gradd ar gwrs Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid geisio ei ateb. Yn aml, mae'r myfyrwyr yn ymateb trwy ddweud nad ydynt, a hwythau oddeutu 20 neu 23 oed, yn teimlo'n 'oedolion go iawn', gan adleisio trafodaethau arloesol Arnett (2000) ynglŷn â datblygu'n oedolion yn raddol. Mae myfyrdod personol o'r fath yn fan cychwyn amhrisiadwy i fyfyrwyr ar gyfer dechrau'r siwrnai ymgysylltu beirniadol â'r cyfoeth o ysgolheictod a thrafodaeth yn y maes Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid, gan herio credoau cyffredin ynglŷn â'r 'plentyn' a 'phlentyndod'. Mae'r ddisgyblaeth yn archwilio syniadau dyrys, ac anghyfforddus yn aml, ynglŷn â ffiniau cysyniadol rhwng plentyndod a byd oedolion, dynameg pŵer, labelu a syniadau wedi'u llunio gan gymdeithas ynglŷn â'r 'plentyn diniwed' neu'r 'plentyn dieflig' (gweler James a James, 2012; Kehily, 2013): mae'r ddau ganfyddiad hyn o blant fel rhai da neu ddrwg yn adlewyrchu trafodaethau hanesyddol Rhamantaidd a Phiwritanaidd ynglŷn â phlentyndod ac maent yn cynrychioli deuoliaeth glasurol a welir hyd heddiw mewn straeon cyfoes, fel achos Bulger (gweler Morrison, 2011). O'r herwydd, gwahoddir myfyrwyr Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid i gwestiynu bodolaeth a chanlyniadau rhagdybiaethau diwylliannol, gwleidyddol a chymdeithasol ynglŷn â phwy yw plant yn ein tyb ni.

Mae plentyndod fel cysyniad a lunnir yn gymdeithasol wedi bod wrth galon a chraidd y maes academaidd hwn ers iddo ddod i'r amlwg yn y 1980au; yr adeg honno, fe'i gelwid yn 'gymdeithaseg newydd plentyndod' (James a Prout 1997, 2015, Qvortrup et al., 2009). Ers hynny, mae astudiaethau plentyndod wedi newid cyfeiriad droeon wrth i'r maes ddatblygu (Alanen, 2019) ac mae mewnwelediadau o ymchwil ar blant mewn meysydd fel anthropoleg (Lancy, 2008) a daearyddiaeth (Kraftl, 2013) wedi llywio'r drafodaeth ar draws ffiniau disgyblaethol. Yn 2018, dathlodd y cyfnodolyn rhyngwladol *Childhood* ei ben-blwydd yn 25 oed trwy gyhoeddi sgyrsiau gyda meddylwyr allweddol ac egin ysgolheigion o wahanol ddisgyblaethau a chyd-destunau diwylliannol (gweler Alanen, 2018; Cook, 2018; Hanson, 2018; Spyrou, 2018). Mae'r erthyglau arloesol hyn yn parhau i fireinio a diffinio natur ryngddisgyblaethol astudiaethau plentyndod, gan gyfeirio at waith

ymchwil sy'n ymdrin â materion amrywiol yn ymwneud â bywydau plant mewn cyd-destunau lleol a byd-eang fel dinasyddiaeth (Cockburn, 2013), rhywedd a rhywioldeb (Renold, Ringrose ac Egan, 2018), cyfeillgarwch a theulu (Corsaro, 2017; Iqbal et al., 2017) a chanfyddiadau trawsddiwylliannol o hawliau plant (Twum-Danso Imoh, 2013), i enwi dim ond rhai.

Mae ysgolheigion yn y maes yn cydnabod yr hyn a elwir gan Cook (2019) yn ethos gwaredol penodol sydd wedi nodweddu'r maes Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ac sydd, yn ôl Cook, yn ceisio sicrhau bod ymchwil ac ymholi yn bwysig i fywydau plant a'u plentyndod (Cook, 2019, t. 4). Ond mae Cook yn dadlau hefyd bod y canfyddiad 'diofyn' sy'n gyffredin yn ein cymdeithas yn tueddu i droi tuag at y 'plentyn diniwed', ffigwr mwy sentimental. Ceir cysylltiad cryf rhwng syniadau sydd wrth wraidd Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a nodau'r Cwricwlwm i Gymru (2022) ac mae'n werth tynnu sylw atynt yn y fan hon. Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi pwyslais ar y broses ddysgu ei hun, gan symud i ffwrdd oddi wrth bwyslais gormodol ar brofion a chanlyniadau. Ochr yn ochr â hyn, mae Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid yn rhoi pwyslais ar gydnabod plant fel 'bod' yn hytrach na rhywbeth sy'n 'dod' yn y dyfodol. Mae gwaith ymchwil diweddar gan Raglen Polisi Plentyndod yr Academi Brydeinig (2020) yn nodi bod angen symud i ffwrdd oddi wrth bolisi sy'n pwysleisio canlyniadau ar gyfer yr oedolion y bydd y plant yn tyfu i fod, a bod angen canolbwyntio mwy ar y plentyn sy'n 'bod'.

### *Cysylltu ymchwil academaidd ag ymarfer addysgol*

Gan y bydd darllenwyr y cyfnodolyn hwn yn gyfarwydd â'r diwygiadau addysg cyfredol yng Nghymru, yn hytrach na mynd ati i ddadansoddi cenhadaeth enfawr y Cwricwlwm i Gymru (2022), ein nod yn y fan hon yw creu cysylltiadau gydag elfennau penodol, yn cynnwys y pedwar diben allweddol a argymhellir gan Donaldson (2015), lle ystyrir bod pob plentyn a pherson ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau, yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd, ac yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r cysylltiadau a'r synergeddau rhwng Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ac addysg yn amlwg pan gânt eu harchwilio ar amryfal lefelau yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd.

Gellir dod o hyd iddynt o fewn yr athronyddiaeth a'r rhethreg sydd wedi ysbrydoli datblygiad a mynegiad y weledigaeth addysgol ehangach a'r modd y ffurfiwyd nodau cyffredinol rhaglen addysg genedlaethol ddiwygiedig Cymru. Yn yr un modd, gellir canfod y cysyniadau sydd wrth wraidd ein dealltwriaeth allweddol o blentyndod, a archwilir trwy'r lens amlddisgyblaethol sy'n ymgorffori dull Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid, ar lefel y cwricwlwm a'r ystafell ddosbarth yn y fersiwn newydd o system addysg Cymru.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhan o fenter ehangach i ddatblygu dysgu a chyflawni cenedlaethol ymhellach. Mae'r uchelgeisiau a nodir yn y diwygiadau hyn yn ymwneud â gweledigaeth ar gyfer dull uchelgeisiol, cyfiawn, teg a chyfrifol mewn perthynas ag addysg dinasyddion Cymru, fel y'i hymgorfforir yn 'Cenhadaeth ein cenedl: safonau uchel a dyheadau i bawb' (Llywodraeth Cymru, 2023). O fewn y chwe amcan cyffredinol sydd wrth wraidd y gwelliannau parhaus a mesuradwy sydd mewn golwg ar gyfer system addysg Cymru, mae nifer o amcanion (yn cynnwys Amcanion 1, 2, 3, 5 a 6) yn cyfeirio'n benodol at alluedd plant, cyfiawnder cymdeithasol a thegwch – cysyniadau sy'n sail i sawl agwedd ar ymchwil o fewn Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid. Mae a wnelo'r amcanion hyn â datblygu dysgwyr fel a ganlyn: 'Mae plant a phobl ifanc sydd â chydberthnasau cryf ac ymdeimlad cadarnhaol o'u hunain – ac sy'n gallu deall a rheoli eu hiechyd a'u hemosiynau eu hunain – mewn sefyllfa well i gyflawni eu potensial llawn yn y dyfodol' (Llywodraeth Cymru, 2017, t. 31). Mae'r cysylltiadau gyda chysyniadau fel galluedd, hunaniaeth a 'bod' yn adleisio meysydd ymchwil sy'n gwbl ganolog i Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid. Yn achos y rhai a fydd yn ymuno â'r proffesiwn addysgu neu sydd eisoes yn gweithio yn y proffesiwn, yn ddi-os byddai eu gallu i gyfathrebu'r cysyniadau hyn yn gwella trwy archwilio'r cysylltiadau a'r synergeddau rhwng Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ac AGA, a byddai'r canlyniadau yn sail i ddarparu AGA fel rhan o'r dull seiliedig ar ymchwil a ffefrir gan Lywodraeth Cymru. Caiff pwysigrwydd y gwaith o drosi a chyfleu'r cysyniadau hyn – nid yn unig wrth addysgu dysgwyr yng Nghymru, ond hefyd fel rhan o weledigaeth gydweithredu ehangach tuag at gyflawni nodau cymdeithasol tecach a mwy goleuedig – ei fynegi yn

uchelgais y Cwricwlwm i Gymru (2022), sef 'cydweithio sy'n parhau i ymestyn y prosesau cyd-awduro sydd wrth wraidd datblygu a hyrwyddo'r gweddnewidiad sydd ei angen o fewn cymdeithas ehangach a fydd yn parhau i herio ein ffordd o feddwl' (Llywodraeth Cymru, 2020, t. 29).

Datblygir y cysyniadau hyn ymhellach mewn fframwaith cynhwysol, fel y nodir yn yr ymrwymiad i chwalu rhwystrau o ran cyflawni nodau addysgol cyffredinol (Amcan 2) 'er mwyn sicrhau bod cyfleoedd a deilliannau addysg rhagorol yn gallu cael eu cyflawni gan bob dysgwr, o bob oed, mewn ystafelloedd dosbarth, ar-lein, ac yn y gwaith.' (Llywodraeth Cymru, 2023, t. 6). Caiff dull sy'n croesawu cysyniadau'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb mynediad at addysg ei gyflawni ar sail ymarferol trwy fentrau sydd wedi'u llunio i oresgyn rhwystrau sy'n atal dysgwyr Cymru rhag cael mynediad at gyfleoedd addysgol, yn cynnwys y Grant Datblygu Disgyblion, a grëwyd i fynd i'r afael â rhwystrau'n ymwneud ag amddifadedd a bod yn agored i niwed mewn rhannau o'r gymuned ehangach. Yn yr un modd, lleolir sawl rhan o'r cwricwlwm oddi mewn i fframweithiau ehangach sy'n seiliedig ar hawliau, yn cynnwys Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021); mae'r Cod hwn yn creu cysylltiadau uniongyrchol ag Awdurdodau Lleol ac ysgolion, gan ofyn iddynt weithredu'n unol ag argymhellion Nod 4 Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) - cyfeirir yn arbennig at Erthyglau 28 a 29 - a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (2006).

Mae'r dulliau hyn yn adleisio barn Davidson (2020), o fewn cyd-destun ehangach y gwaith o lunio'r ddeddf a dorrodd dir newydd yn rhyngwladol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), sef bod gan yr ysgol rôl hynod bwysig yn niwylliant, hunaniaeth a gwerthoedd dinasoedd, trefi a phentrefi yng Nghymru, gan weithredu fel dangosydd clir o iechyd, hapusrwydd a sefydlogrwydd ein cymunedau (Davidson, 2020, t. 43). Caiff y gydnabyddiaeth bod plant o fewn y gymuned yn gwbl greiddiol i'r cysyniadau o ddinasyddiaeth Gymreig a datblygiad cymdeithas a diwylliant Cymru yn y dyfodol ei mynegi hefyd yn Amcan 5 'Cenhadaeth ein cenedl: safonau uchel a dyheadau i bawb' (Llywodraeth Cymru, 2023) fel rhan o'r rhagdybiaeth a'r anogaeth o'r ffaith fod dysgwyr yn rhan allweddol o'r gymuned ehangach. Hefyd, mae lleoliad ac ymdeimlad o berthyn, a astudir yn eang o fewn cyd-destun

Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid wrth ymchwilio i ofodau a daearyddiaeth plant, yn rhan o'r cysyniad ehangach o 'cynefin', sef 'y lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a'r golygfeydd a'r synau'n gysurol o adnabyddadwy.' (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae bwriad Cwricwlwm i Gymru (2022) i annog dysgwyr annibynnol a all wneud cyfraniadau ystyrlon at eu cymunedau a thu hwnt yn adleisio'r ddealltwriaeth hon o blentyndod mewn gofodau cymdeithasol, tymhorol a daearyddol – cysyniadau pob un sy'n ganolog i faes ac astudiaeth Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid.

Ar lefel y cwricwlwm, caiff y cysyniadau hyn eu hymgorffori nid yn unig yn y Pedwar Diben y soniwyd amdanynt eisoes, ond hefyd wrth gynllunio'r chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad'.

Cyfathrebir hanfod y syniadau hyn yn fwyaf argyhoeddiadol yn y 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig', sy'n gysylltiedig â phob Maes Dysgu a Phrofiad. Mae'r 'Datganiadau' hyn, gyda chymorth gan y profiad addysgol a gaiff ei greu gan yr ymarferydd yn yr ystafell ddosbarth, yn annog dysgwyr i ymgysylltu â chysyniadau hollbwysig sy'n galluogi'r unigolyn i archwilio'i rôl a'i hunaniaeth mewn cymdeithas. Mae enghreifftiau o'r mathau o syniadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â syniadau hollbwysig mewn Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid yn cynnwys:

- O fewn y Maes Dysgu a Phrofiad 'Iechyd a Lles', cysyniadau'n ymwneud ag iechyd a llesiant gydol oes, llesiant meddyliol ac emosiynol, ac effaith penderfyniadau unigolion ar ansawdd eu bywydau eu hunain ac ar ansawdd bywydau pobl eraill.
- O fewn Maes Dysgu a Phrofiad 'Y Dyniaethau', cysyniadau'n ymwneud â dinasyddiaeth, awdurdod a llywodraethu, cydgysylltiad, cyfiawnder a chydraddoldeb, menter, hawliau, a gweithredu a chyfrifoldeb cymdeithasol.
- O fewn y Maes Dysgu a Phrofiad 'Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu', archwilio nodweddion cysylltiol mynegiant ieithyddol, pwysigrwydd iaith wrth hunanfynegi a datblygu hunaniaeth, ac fel allwedd i ddeall y byd ehangach.
- Ar lefel ehangach a thrawsgwricwlaidd, mae amcanion y gwaith statudol o ddatblygu cymhwysedd digidol yn ymwneud ag elfennau craidd sy'n cwmpasu datblygiad hunaniaeth ddigidol, llesiant, hawliau a pherchnogaeth, ac ymwybyddiaeth o ymddygiad ar-lein.

Yn amlwg, mae'r dulliau hyn yn gysylltiedig â'r canfyddiad o blant a phlentyndod fel bodau sy'n meddu ar alluedd ac maent yn cydnabod y rhyngweithio gweithredol rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'u cymdeithas a'u hamgylchedd, boed hynny ar sail leol, fyd-eang neu ddigidol.

Mae'r Pedwar Diben, y chwe Maes Dysgu a Phrofiad a'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig cysylltiedig yn cynnig ffocws ar gyfer cynllunio profiadau addysgol sy'n gwahodd dysgwyr i'r profiad cymdeithasol ehangach, ac i ryngweithio o fan cychwyn eu profiad eu hunain.

Mae gwersi a phrofiadau addysgol a gynllunnir yn annog rhyngweithio â'r amgylchedd naturiol, ffisegol, diwylliannol a deallusol. Ymhellach, nid o fewn amgylchedd lleol y dysgwr yn unig y rhagwelir y rhyngweithiadau hyn; y bwriad hefyd yw ymestyn yr ymholiad trwy lefelau cenedlaethol a rhyngwladol. Bwriedir i effaith hyn bontio'r dull cymunedol gyda'r dull rhyng-genedlaetholaidd a chosmopolitan, gan gysylltu â chysyniadau ehangach yn ymwneud â chyfrifoldeb byd-eang a dinasyddiaeth fyd-eang. Felly, ceir cysylltiadau pwysig yn y fan hon rhwng y cysyniadau, yr ideolegau a'r epistemoleg sy'n sail i Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid, a'r ddealltwriaeth ehangach o gynnig Llywodraeth Cymru y dylai gwaith cynllunio'r cwricwlwm fod â chysylltiad uniongyrchol â materion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ar wahanol lefelau. Mae'r gofynion a rydd y Cwricwlwm i Gymru (2022) ar athrawon ac ymarferwyr ystafelloedd dosbarth o ran cyfleu'r cysyniadau ehangach hyn mewn meysydd pwnc a Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cynnig mewnwelediad i natur hollbwysig y berthynas rhwng Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ac AGA o ran cynllunio ar gyfer llwyddiant y fenter gwricwlaidd newydd a'i huchelgeisiau ehangach.

Er mwyn gallu gweithio gyda phlant i'w cynorthwyo i feithrin y sgiliau a'r dyheadau hyn, mae angen dealltwriaeth ddofn o ffactorau amlweddog sy'n siapio bywydau plant a phobl ifanc. Mae'r adrannau nesaf yn cynnig cipolwg ar rai materion cyfoes allweddol a gaiff eu llywio gan is-ddisgyblaethau cymdeithaseg, addysg a seicoleg, ac mae pob un ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i waith pob addysgwr: hawliau plant ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar blant, iechyd meddwl a llesiant, rhywedd a hunaniaeth, cynhwysiant a llenyddiaeth plant, gan ddarparu tystiolaeth bellach o'r synergeddau rhwng y meysydd hyn a'r cynigion addysgol newydd.

*Hawliau Plant a Chanfyddiadau o Blentyndod*

Mae'r weledigaeth o alluogi plant a phobl ifanc i fod yn '*ddinasyddion egwyddorol, gwybodus*' yn adleisio'r syniad bod plant yn gyfranogwyr cymdeithasol (James a Prout, 2015) ac mae hefyd yn adleisio'r agenda mewn perthynas â chyfranogiad plant (gweler Lundy, 2018; Percy-Smith a Thomas, 2010) sydd wedi mynd o nerth i nerth ers i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gael ei gadarnhau'n gyffredinol ym 1989 (UNICEF 1989). Gellir crynhoi egwyddorion sylfaenol hawliau plant ar ffurf y tair elfen sydd wrth wraidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef: Diogelu, Darparu a Chyfranogi; mae'r elfen olaf, fel y'i mynegir yn Erthygl 12 (hawl y plentyn i fynegi ei farn a chael ei glywed), wedi bod yn destun trafodaeth barhaus ac mae wedi paratoi'r ffordd ar gyfer mentrau fel cynghorau ysgol a seneddau ieuenctid. Yng nghyd-destun y DU, mae Cymru ar flaen y gad o ran gwaith eirioli a gwaith cyfranogol go iawn gyda phlant (gweler Comisiynydd Plant Cymru https://www.complantcymru.org.uk). Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011) yn pennu'r gofyniad i Weinidogion Cymru ysgwyddo dyletswydd i roi 'sylw dyladwy' i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud unrhyw benderfyniadau strategol.

O ran hawl plant i wneud penderfyniadau ynglŷn â materion a allai effeithio arnynt, gellir ystyried bod yr hawl honno yn groes i ddaliadau tadofalaethol traddodiadol am blentyndod. Mae trafodaethau o'r fath yn galluogi myfyrwyr Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid i gysylltu polisïau a damcaniaethau gydag ymarfer; ac fel ymarferwyr y dyfodol ar draws amrywiol gyd-destunau gwaith gyda phlant a phobl ifanc, mae ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol sy'n deillio o ymchwil gyfoes ac arloesol. Yn achos y rhai sy'n bwriadu dilyn gyrfa mewn addysgu, mae ymwneud ag Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid yn esgor ar ddealltwriaeth ddyfnach o'r bydoedd cymdeithasol y gallai pobl ifanc o dan eu gofal drigo ynddynt; mae hefyd yn cynnig mynediad i ddarpar athrawon at drafodaethau cysyniadol hollbwysig ynglŷn â materion sy'n berthnasol i fydoedd pobl ifanc y naill ochr a'r llall i glwyd yr ysgol. Er enghraifft, gall cyfle i fyfyrio ar alluedd plant ifanc a sut i'w grymuso (Kirby, 2019) arwain y ffordd ar gyfer addysg ryddfreiniol yn yr ystafell ddosbarth.

Mae cwricwlwm newydd sydd wedi ymrwymo i ddatblygu dinasyddion egwyddorol a gwybodus yn rhywbeth i'w groesawu, ond credwn fod yn rhaid i hyn ddod law yn llaw â chred yn lleisiau'r plant ac yn eu gallu i wneud penderfyniadau; rhaid i'r gred hon fynd y tu hwnt i unrhyw gyfranogiad tocenistaidd mewn cynghorau ysgol.

### *Iechyd Meddwl a Llesiant*

Un o'r pryderon mwyaf taer yn y gymdeithas sydd ohoni yw'r cynnydd mewn salwch meddwl ymhlith plant a'r glasoed (Gunnell, Kidger ac Elvidge, 2018). Yn ôl y GIG, yn 2018 cafodd 1 o bob 8 o blant a phobl ifanc rhwng 5–19 oed ddiagnosis o un salwch meddwl o leiaf. Mae'r ffigurau'n destun mwy fyth o bryder ar gyfer menywod ifanc 17–19 oed, gydag 1 o bob 4 yn dioddef anhwylderau fel gorbryder ac iselder. Felly, ar gyfartaledd, bydd gan dri phlentyn ym mhob dosbarth salwch meddwl o ryw fath ac mae'r niferoedd yn fwy brawychus fyth ar gyfer ysgolion uwchradd.

Gan fod iechyd meddwl plant a'r glasoed yn destun pryder cynyddol a bod nifer o'r rhai â phroblemau iechyd meddwl yn gorfod aros mwy na thri mis cyn cael triniaeth (Crenna-Jennings a Hutchingson, 2020), mae'n hanfodol i ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn feddu ar ddealltwriaeth dda o'r maes. Golyga hyn fod yn rhaid i iechyd meddwl a llesiant plant a'r glasoed fod yn rhan annatod o unrhyw gwrs sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc heddiw. O fewn y ddisgyblaeth, mae'r myfyrwyr yn dysgu llawer iawn am yr amrywiaeth o broblemau ac anhwylderau iechyd meddwl sy'n effeithio ar blant a'r glasoed, yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer eu hadnabod, ond rydym hefyd yn archwilio'r effeithiau y gall yr anhwylderau hyn eu cael ar blant a'u teuluoedd a'r modd y byddai ymarferwyr yn eu cynorthwyo, efallai trwy addasu eu dulliau neu addasu'r amgylchedd a thrwy ddefnyddio strategaethau seiliedig ar dystiolaeth i ddelio ag amryfal faterion.

Er enghraifft, Anhwylderau Ymddygiad – grŵp o ymddygiadau sydd naill ai'n tramgwyddo hawliau pobl eraill neu normau cymdeithasol pwysig (American Psychiatric Association, 2013) – yw'r anhwylderau meddyliol mwyaf cyffredin sy'n effeithio ar blant (Green et al., 2005) ac maent yn creu cryn heriau i rieni, athrawon ac ymarferwyr eraill yn y maes iechyd plant (Baker, 2016). Heb ymyrraeth effeithiol, canlyniadau hirdymor gwael a ddaw i ran plant â chyflyrau o'r fath

(Baker, 2016). Dengys gwaith ymchwil fod deall materion a ffactorau sy'n gysylltiedig ag Anhwylderau Ymddygiad yn hollbwysig er mwyn ceisio cynorthwyo'r unigolyn, ochr yn ochr â gwybod sut i ddelio ag ymddygiadau o'r fath mewn ffordd effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth (Wilkinson, Waller, Viding, 2016). Trwy ymwneud â gwaith ymchwil o'r fath, bydd modd i'n myfyrwyr ddysgu gwybodaeth berthnasol a bydd modd iddynt gael gafael ar yr offer priodol ar gyfer delio â phlant a phobl ifanc sydd â'r cyflyrau hyn a chyflyrau eraill; mae gwybodaeth o'r fath yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion.

Adlewyrchir y syniad o roi sylw i lesiant plant a phobl ifanc ym mhedwerydd diben y cwricwlwm newydd, sef '*Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas*'; ond er mwyn meithrin plant emosiynol gadarn, mae athrawon angen rhagor o gymorth. Mewn adroddiad diweddar, dangoswyd nad oedd y mwyafrif o staff ysgolion yn meddu ar ddigon o hyder i geisio cynorthwyo iechyd meddwl y plant, a'u bod yn ofni y gallent waethygu'r sefyllfa yn hytrach na'i gwella (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018), ond yn ôl eraill, nid oedd athrawon yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o wahanol anhwylderau y gallent ddod ar eu traws, ac nid oedd ganddynt ychwaith strategaethau i ddelio â gwahanol broblemau (Atkinson, 2015).

O gofio addewid Llywodraeth y DU i roi cyllid ychwanegol ar gyfer hyfforddi gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn weithwyr iechyd, fel athrawon, i allu delio â phlant sy'n cael problemau iechyd meddwl, (DoH, 2017), gellir gweld ein bod eisoes wedi ymrwymo i roi'r sgiliau hyn i ymarferwyr y dyfodol trwy gyfrwng ein cyrsiau Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid.

## *Datblygiad, Rhywedd a Hunaniaeth Plant*

Efallai fod y cysylltiad rhwng Addysg a Datblygiad Plant yn amlwg. Un agwedd allweddol ar weithio gyda phlant a phobl ifanc yw hwyluso eu datblygiad ar draws pob rhan o fywyd. Un o nodau eraill y cwricwlwm newydd yw datblygu dinasyddion Cymreig sy'n '*ddysgwyr uchelgeisiol, galluog*'. Mae'r nod hwn yn cydnabod nad yw datblygiad mewn un maes – boed yn wybyddol, yn gymdeithasol, yn gorfforol etc. – yn digwydd ar ei ben ei hun. Mewn Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid, mae ein

trafodaethau ynglŷn â datblygiad plant a'r glasoed yn mynd y tu hwnt i 'sut', gan fynd ati i archwilio 'pam'. Trafodir damcaniaethwyr cyfarwydd fel Piaget, Vygotsky a Bandura, ond caiff eu damcaniaethau eu trafod mewn cyd-destunau amrywiol.

Er enghraifft, ystyrir y pwyslais diweddar ar annog merched i astudio pynciau STEM. Gofynnwn a yw hyn yn adlewyrchu gwahaniaeth biolegol ynteu a yw wedi deillio o Ddysgu Cymdeithasol (Bandura, 1969). Dengys tystiolaeth fod merched a bechgyn yn cael mathau gwahanol o fewnbwn, a mewnbwn ar wahanol lefelau, gan eu rhieni. Mae merched yn tueddu i gael mwy o gyfarwyddyd ar gyfer darllen ac ysgrifennu gan eu rhieni cyn iddynt ddechrau mynd i'r ysgol, ond mae tadau'n rhoi mwy o'u hamser i fechgyn ar ôl iddynt gyrraedd 3 oed (Baker a Milligan, 2016). Fel rhan o'u proses gymdeithasu, mae merched a bechgyn yn dysgu bod gwahanol bethau'n dderbyniol neu'n ddisgwyliedig ganddynt. Oherwydd hyn, mae rhai merched, erbyn iddynt gyrraedd 6 oed, yn credu mai rhywbeth i fechgyn yw bod yn 'ofnadwy o glyfar' ac mae'n bosibl y bydd cyfran uwch o ferched yn dechrau ymddieithrio rhag gweithgareddau a gysylltir yn draddodiadol â lefel uchel o ddeallusrwydd (fel pynciau STEM) (Bian, Leslie a Cimpian, 2017). Ymhellach, mae'r trafodaethau hyn yn archwilio'r cydbwysedd anodd y mae ein cymdeithas yn disgwyl i ferched ei gyflawni o ran bod yn fenywaidd ond nid yn 'rhy ferchetaidd', lle caiff benyweidd-dra ei ystyried fel rhywbeth sy'n hanfodol i ferched ond yn groes i wyddoniaeth (Francis, et al., 2016).

Mae'r ddisgyblaeth yn rhoi llawer o bwyslais ar gwestiynu ein rhagdybiaethau, ein gwerthoedd a'n rhagfarnau ein hunain er mwyn helpu plant i lywio'u datblygiad y tu hwnt i ennill y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol. Archwilir y trafodaethau hyn oddi mewn i fframwaith croestoriadol, gan gydnabod y bydd profiadau datblygu'n amrywio gydag ystod o ffactorau (e.e. hil, mantais gymdeithasol, diwylliant ac ati) a chan gydnabod hefyd y gall y ffactorau hyn gyfuno mewn gwahanol ffyrdd yn achos plant unigol (Hankivsky, 2014).

Gan olrhain ffurfiau rhai o'r ffactorau hyn a'r modd maent yn cydadweithio, mae Wells (2018, t. 3) yn dadlau bod yn rhaid i ni, fel ysgolheigion Astudiaethau Plentyndod, ddechrau trwy gydnabod bod plentyndod yn '*ofod anghyfartal iawn'*. Mae Wells yn cyfeirio at y 'lluosogrwydd' sy'n perthyn i blentyndod – y ffactorau sy'n effeithio ar ymdeimlad y plentyn o bwy yn union ydyw. Fel y trafodir yn yr adran nesaf, gall llenyddiaeth roi cipolwg inni ar y lluosogrwydd hwn.

*Llenyddiaeth a Bydoedd Cymdeithasol Plant*

Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu hunaniaeth gref a hyderus, rhaid iddynt weld eu realiti yn cael ei adlewyrchu yn y byd o'u cwmpas. Mae dadansoddi llenyddiaeth plant o fewn cyd-destun Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid yn un ffordd o wneud hyn. Nid cysyniad newydd mo hwn, gyda Hoffman (1984) yn cydnabod llenyddiaeth yn dod o dan ddylanwad newid cymdeithasol a gwleidyddol a'i bod yn galluogi plant i roi eu hunain yng nghyd-destun y straeon. Er enghraifft, ar ddiwedd ras arfau'r Rhyfel Oer yn y 1980au, trafodwyd rhyfel niwclear yn y nofel graffig *When the Wind Blows* (Briggs, 1981) a hefyd yn *Children of the Dust* (Lawrence, 1985). Yn dilyn cyhoeddi toreth o straeon yn y 1970au am yr Ail Ryfel Byd, yn cynnwys *When Hitler Stole Pink Rabbit* (Kerr, 1971) a *Carrie's War* (Bawden, 1973), daeth rhyfel niwclear i'r amlwg fel thema mewn llenyddiaeth i bobl ifanc. Trwy lygaid y cymeriadau yn y straeon, llwyddodd y genres hyn i alluogi plant i ddeall sut câi eu cymdeithas ei siapio. Caiff y testunau hyn eu defnyddio mewn ysgolion hyd heddiw gan eu bod yn mynd ati mewn ffordd bwerus a didwyll i gyfleu cyfnodau mewn hanes y gall plant eu profi.

Mae straeon yn cynnig cyd-destun diogel lle gall plant archwilio heriau a phenblethau. Rhai o'r straeon cynharaf y bydd plant yn eu clywed yw storïau traddodiadol sydd, yn baradocsaidd, yn cynnwys creulondeb a pherygl yn aml. Mae Bettelheim, a ddyfynnir yn Martenova Charles (2009), yn awgrymu y gall plant uniaethu â phroblemau cymeriadau mewn straeon o'r fath, gan gael tawelwch meddwl pan gaiff y problemau hynny eu datrys. Felly, mae storïau traddodiadol yn cadarnhau bod profiadau plant yn werth chweil, ac mae hynny'n ategu eu llesiant. Ymhellach, mae saith plot sylfaenol Booker (2005) – sef marwolaeth neu berygl, y da yn erbyn y drwg, tlodi, cenfigen neu ddyhead, twyll neu ystryw, dewiniaeth neu hud, a dianc ac achub – a gaiff le amlwg yn y storïau traddodiadol hyn, yn berthnasol i lenyddiaeth gyfoes i blant hefyd. Efallai y bydd myfyrwyr ar raglen Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid yn dadansoddi straeon trwy ddefnyddio'r themâu hyn ac yn cymhwyso'u dealltwriaeth o ddamcaniaethau mewn seicoleg datblygiad a chymdeithaseg iddynt. Byddant yn trafod pa agweddau ar y cymeriadau y gallai plant hŷn uniaethu â nhw a sut gellir defnyddio straeon i godi ymwybyddiaeth o faterion a all ddigwydd mewn bywyd go iawn, fel profedigaeth a bwlio. Mae trafodaethau ynglŷn â'r modd y mae bywyd teuluol Harry Potter

(Rowling, 1997) yn cyfateb i astudiaeth achos amddiffyn plant, y ffaith fod ei hawliau dynol wedi'u tramgwyddo a'r ffaith fod ei berthynas gydag oedolion yn awgrymu anawsterau ymlyniad, yn broses werthfawr o ran dadansoddi materion personol, cymdeithasol ac emosiynol mewn ffordd hygyrch. Felly, gall dadansoddi llenyddiaeth fod yn ddefnyddiol o ran annog cydberthnasau diogel ac iach a helpu i feithrin cadernid. Gan fod llenyddiaeth a llesiant yn elfennau annatod o Feysydd Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm i Gymru (2022), bydd addysgwyr yn parhau i gael cyfleoedd trawsgwricwlaidd i ddefnyddio llenyddiaeth fel ffordd i ategu llesiant.

Ond mae yna heriau o ran hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth a cheir tystiolaeth sy'n dangos nad yw realiti pob plentyn yn cael ei adlewyrchu mewn llenyddiaeth gyfoes. Rhyddhaodd adroddiad y Ganolfan Llythrennedd mewn Addysg Gynradd, sef *Reflecting Realities* (2018), arolwg o gynrychiolaeth ethnig mewn llenyddiaeth plant yn y DU. Dengys y canfyddiadau mai 4% yn unig o'r llyfrau plant a gyhoeddwyd yn 2017 a oedd yn cynnwys cymeriadau o gefndir du neu ethnig leiafrifol, ac nad oeddent felly yn cynnig cynrychiolaeth ddigonol ar gyfer 32% o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn y DU a ddôi o gefndir du neu ethnig leiafrifol.

Ychwaith, ni chaiff plant ag anableddau eu cynrychioli'n ddigonol mewn llenyddiaeth plant, yn enwedig rhai ag anawsterau dysgu dwys. Sylwodd Greenwell (2004) ar duedd lle gwelid cymeriadau ag awtistiaeth yn ymddangos mewn llenyddiaeth i bobl ifanc ar ôl i syndrom Asperger gael ei gydnabod yn ffurfiol yn y 1990au. Mae'r duedd hon wedi parhau mewn cyhoeddiadau fel *The State of Grace* (Lucas, 2017), sy'n herio ambell stereoteip a gysylltir ag awtistiaeth, ond yn gyffredinol, i raddau bach yn unig y caiff anabledd ei gynrychioli. Ar gyfer plant iau, dim ond 29 o lyfrau lluniau â chymeriad ag anabledd dysgu y daeth Graham (2019) o hyd iddynt, a 43 â chymeriad a ddefnyddiai gadair olwyn.

Mae angen mynd i'r afael o ddifrif â'r modd y caiff grwpiau lleiafrifol eu portreadu mewn llenyddiaeth i blant, ac os na fydd plant yn eu gweld eu hunain yn cael eu portreadu mewn cymdeithas, neu os cânt eu portreadu mewn ffordd negyddol yn unig, gallai eu llesiant a'u hunaniaeth fod yn y fantol (CLPE, 2018). Felly os ydym ni fel ymarferwyr, ysgolheigion ac addysgwyr am feithrin '*[c]yfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith*' – sef ail ddiben y cwricwlwm newydd – rhaid inni ddeall y realiti cymdeithasol pob plentyn a pherson ifanc, fel y gallwn feithrin eu hunan-barch a'u grymuso i dorri eu cwys eu hunain. Mae myfyrwyr ar raglenni gradd Astudiaethau

Plentyndod ac Ieuenctid yn edrych ar astudiaethau achos go iawn sy'n deillio o waith ymchwil arloesol er mwyn meithrin y sgiliau a'r gallu i gwestiynu deuoliaethau dyrys fel goramddiffyn a grymuso plant a phobl ifanc. Gofynnodd Furlong am gael hyfforddiant cychwynnol i athrawon a fyddai'n ehangol yn hytrach nag yn gyfyngol (2015, t. 39), gan adleisio cynnig Donaldson ar gyfer cael proffesiwn sy'n ymateb i addysg yn yr unfed ganrif ar hugain. Hoffem ychwanegu bod yn rhaid i'r weledigaeth newydd hon ar gyfer addysg yng Nghymru sicrhau bod athrawon yn mynd i'r afael â chwestiynau athronyddol, cysyniadol a gwirioneddol ynglŷn â phwy yw plant yn eu tyb nhw; un ffordd o gyflawni hyn yw trwy weithio gyda phlant mewn gweithgareddau ymchwil.

### *Ymchwil sy'n Canolbwyntio ar Blant*

Mae natur amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid yn cynnig cyfleoedd lu i feithrin gwerthfawrogiad beirniadol y myfyrwyr o waith ymchwil. Mae bod yn hyddysg mewn ymchwil, ynghyd â'r gallu i ymwneud ag ymarfer sy'n cynnwys ymchwil, yn sgìl craidd sydd wrth wraidd sawl proffesiwn sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc, yn cynnwys therapi iaith a lleferydd, seicoleg glinigol, seicoleg addysgol, gwaith cymdeithasol ac, wrth gwrs, addysgu:

> *The critique and integration of appropriate research to inform and evolve effective teaching and learning practices is an essential requirement for teaching professionals…This should involve teachers engaging in, and with, research in order to be able to use research discerningly to inform their own practice and that of others …* (Evans, Waring, a Christodoulou, 2017, t. 404)

Mae defnyddio, cynhyrchu a gwerthuso ymchwil a chymryd rhan mewn ymchwil yn elfennau allweddol sy'n cyfrannu at ddysgu myfyrwyr, gan ddod â nhw i gysylltiad ag amrywiaeth o draddodiadau, paradeimiau a dulliau ymchwil, yn ogystal â ffyrdd amrywiol o fynd i'r afael â'r mater o dan sylw. Gan wneud defnydd o ymchwil sy'n deillio o feysydd cymdeithaseg, seicoleg, y gyfraith, addysg ac iechyd, i enwi dim ond rhai, caiff myfyrwyr eu grymuso i feithrin dealltwriaeth gyfannol o'r plentyn a'r oedolyn ifanc o safbwynt gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol, a bydd modd iddynt ddefnyddio'r wybodaeth hon mewn cyd-destun gwaith yn y dyfodol.

Fel sawl disgyblaeth arall, mae Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid yn defnyddio llu o weithdrefnau, cynlluniau a dulliau ymchwil confensiynol i fynd i'r afael â chwestiynau amrywiol yn ymwneud â phlant a phlentyndod. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau ethnograffig, naratif, arbrofol, cydberthynol, damcaniaeth seiliedig ac arolygon, sy'n cwmpasu methodolegau ansoddol, meintiol a chymysg fel cyfweliadau, arsylwadau, holiaduron a ffyrdd amlwg eraill o fesur ymddygiad (e.e. profion seicometrig neu asesiadau enydol ecolegol. Mae'n hanfodol deall rhinweddau a chyfyngiadau cymharol y dulliau hyn mewn gwahanol gyd-destunau archwilio er mwyn gallu defnyddio a/neu gynhyrchu ymchwil yn effeithiol, a bydd hyn oll yn meithrin dealltwriaeth feirniadol y myfyrwyr o'r cyfraniad cymharol a gynigir gan ryw astudiaeth benodol, a'r cyfyngiadau sy'n perthyn i'r canfyddiadau hynny.

Mewn Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid, mae ffocws cryf ar lais y plentyn yn agwedd gwbl ganolog a hollbwysig ar y broses ymchwil (Tisdall a Punch, 2012), ynghyd â chydnabod pa mor bwysig yw cynnwys plant yn y broses honno. Un o gonglfeini'r paradeim sy'n sail i Astudiaethau Plant ac Ieuenctid yw cydnabod mai dulliau ethnograffig yw'r ffordd orau o ganfod barn a mewnwelediadau plant (James a Prout, 1997; 2015). Ar draws disgyblaethau, yn aml gall ymchwilwyr esgeuluso safbwynt plant ynglŷn â materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu bywydau, ond byddant yn dal i honni eu bod wedi defnyddio dull cyfranogol neu ryddfreiniol. Eto i gyd, fel yr argymhellir gan y lluniadaethwyr, mae gan blant allu cynhenid i archwilio, cwestiynu a darganfod, sy'n golygu eu bod yn gwbl barod ar gyfer y broses ymchwil. Trwy gynnwys plant fel cyfranogwyr gweithredol mewn ymchwil a pholisi, a hefyd fel cydlunwyr ymchwil a pholisi – sef ymchwilio *gyda* phlant yn hytrach na chynnal ymchwil *arnynt* – llwyddwyd i ddelfrydoli'r syniad bod plant a phobl ifanc yn gyfranogwyr cymdeithasol cymwys i wrthweithio safbwyntiau traddodiadol lle câi plant eu gweld fel dibynyddion goddefol (Tisdall a Punch, 2012 t. 255) ac mae'n nodi lle canolog y plentyn yn y broses ymchwil. Mewn cyd-destun addysg, mae'n bwysig cynnwys plant yn y broses ymchwil, a gall hynny grymuso dysgu'r disgyblion eu hunain fel bodau ymreolaethol:

> *… teachers should also collaborate with their pupils to get them engaged in and with research. In doing so, pupils can develop their abilities and take ownership of the skills that*

> *allow them to critically engage with research evidence and help them to make informed decisions in evolving learning contexts on an ongoing basis* (Evans, Waring a Christodoulou, 2017, t. 404)

Yng Nghymru, mae'r rhaglen BA Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ym Mangor a rhaglen y Blynyddoedd Cynnar yn Abertawe yn cyd-fynd yn agos â gwaith Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, ac yn arbennig felly â'r prosiect *Lleisiau Bach/Little Voices* arloesol sydd wedi datblygu'r fethodoleg 'Plant fel Ymchwilwyr' (CAR®) (gweler Dale a Roberts, 2018). Er mwyn cael mynediad at lais y plentyn mewn ymchwil, mae'n ofynnol cael cyfres wahanol o ddulliau, egwyddorion ac offer methodolegol (Clark, 2005), ac mae cael gafael ar yr wybodaeth hon yn elfen hollbwysig o hyfforddiant gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant.

### *Croesi'r bont rhwng Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid ac Addysg yng Nghymru*

Mae'r Cwricwlwm i Gymru (2002) yn cynnig cyfle amserol i gydnabod perthnasedd cyrsiau academaidd addysg uwch mewn Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid a'r effaith a gânt ar y modd y caiff plentyndod a bywydau plant eu cysyniadoli mewn cyd-destunau addysg.

Mae cynnwys cwricwlwm cyrsiau o'r fath yn galluogi myfyrwyr i fyfyrio'n ddwfn a thrafod materion cymdeithasol, seicolegol, addysgol, gwleidyddol ac emosiynol sy'n effeithio ar fywydau beunyddiol plant a phobl ifanc, gan gydweddu'n glir â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru (2022). Trwy gynnal deialog a thrwy ddeall safbwyntiau'r naill a'r llall, mae academyddion, myfyrwyr ac ysgolion mewn sefyllfa ddelfrydol i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu plant a phobl ifanc mewn addysg gyfoes ac yn y byd cymdeithasol ehangach. Wrth amddiffyn Astudiaethau Plant rhyngddisgyblaethol, mae Prout (2019, t. 310) yn cyflwyno achos argyhoeddiadol dros 'ddefnyddioldeb' a pherthnasedd y maes, a dywed ei bod yn amhosibl deall addysg a phrosesau addysg heb siglo syniadau cyffredin a goleddir ynglŷn â phlentyndod – hyd yn oed syniadau a goleddir gan athrawon a rhieni. Aiff yn ei flaen i bwysleisio bod angen mynd ati ar frys i greu ffyrdd newydd o feddwl am addysg a'r sefydliad addysgu:

> *The walls of the school (and also those of the household) are dissolving and making the connection with children's everyday lives is becoming a more and more urgent task – and one to which Childhood Studies can make a crucial contribution.* (Prout, 2019, t. 314)

Ymddengys fod y syniadau a gaiff eu harchwilio yn y fan hon yn mapio synergedd o ran dyheadau ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru y cyfeirir atynt yng nghenadaethau Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a'r Cwricwlwm i Gymru (2022) ac yn ethos ac ysgolheictod y maes Astudiaethau Plant ac Ieuenctid. Yn ein tyb ni, mae pedwar diben y cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle unigryw i gydweithredu a dysgu ar draws y cyd-destunau sefydliadol hyn.

Yr hyn sy'n rhoi mewnwelediad a dealltwriaeth inni o blentyndod yw profiadau bywyd goddrychol plant. Fel ysgolheigion, ymarferwyr neu lunwyr polisïau, mae'n ddyletswydd arnom i wrando ar yr hyn sydd gan blant a phobl ifanc i'w ddweud ac mae gennym gyfrifoldeb i'w cynorthwyo i fod yn (yn hytrach na dim ond dod yn) aelodau gweithgar, hyddysg ac iach o'r gymdeithas. I gloi, mae'n werth myfyrio ar genhadaeth y Cwricwlwm i Gymru (2022), a gaiff ei chrynhoi fel a ganlyn: '*Cynlluniwyd gan athrawon. Adeiladwyd ar gyfer plant*', gan adleisio awgrym poblogaidd Freeman (2014) mai plant a ddylai lunio ac ysgrifennu'r cytuniad nesaf ar hawliau blant. Mae'r cwricwlwm newydd yn gyfle i gwestiynu ein rhagdybiaethau ynglŷn â'r hyn sy'n dda neu'n briodol i blant a chynnal sgyrsiau gyda phlant yn ddyddiol er mwyn cael ateb gwirioneddol i'n cwestiwn.

## *Cyfeiriadau*

Alanen, Leena (2019) 'Progress – or (just) work-in-progress in childhood studies?', *Childhood*, 26(2), 135–8

Alanen, Leena (2018) 'Cross-disciplinary conversation in childhood studies: Views, hopes, experiences, reflections', *Childhood*, 25(2), 127–41

American Psychiatric Association (2013). Diagnostic and Statistical Manual of Mental Disorders (5ed argraffiad). Arlington, VA: American Psychiatric Publishing. p. 659. ISBN 978-0- 89042-555-8.

Arnett, Jeffrey (2000) 'Emerging adulthood: A theory of development from the late teens through the twenties', *American Psychologist*, 55(5), 469–80.

Baker, M. a Milligan, K. (2016) 'Boy-girl differences in parental time investments: evidence from three countries', *Journal of Human Capital,*10(4), 399–441

Bian, L., Leslie, S. a Cimpian, A. (2017) 'Gender stereotypes about intellectual ability emerge early and influence children's interests', *Science*, 3.55(6323), 389–91

Booker, C. (2005) *The seven basic plots: why we tell stories.* London: Bloomsbury

Centre for Literacy in Primary Education (2018) *Reflecting Realities*, London: CLPE

Clark, A. (2005) 'Listening to and involving young children: a review of research and practice', *Early Child Development and Care*, 175(6), 489–505.

Cockburn, Tom (2013) *Rethinking Children's Citizenship*, Palgrave Macmillan: Cook, Daniel Thomas (2019) 'The mire of its own construction? Childhood studies and the 'crisis' at the Mexico-U.S. border', *Childhood*, 26(1), 3–7, 19

Cook, Daniel Thomas (2018) 'Past, present and futures of childhood studies: A conversation with former editors of Childhood', *Childhood*, 25(1), 6–18

Corsaro, William (2017) *The Sociology of Childhood* (5$^{ed}$ argraffiad), Sage Publications

Crenna-Jennings, W., a Hutchinson, J. (2020). Access to child and adolescent mental health services in 2019, Education Policy Institute, gw. https://epi.org.uk/publications-and-research/access-to-child-and-adolescent-mental-health-services-in-2019/

Dale, H. a Roberts, A. (2018) *Lleisiau Bach yn Galw Allan – Adroddiad Terfynol,* gw. https://www.lleisiaubach.org/home

Davidson, J. (2020) #Futuregen: Lessons from a small country. London: Chelsea Green Publishing

DoH, D. (2017). Transforming children and young people's mental health provision: a green paper.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Gw. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf

Evans (2022): 'Back to the future? Reflections on three phases of education policy reform in Wales and their implications for teachers' https://doi.org/10.1007/s10833-021-09422-6

Evans, C., Waring, M., a Christodoulou, A. (2017). 'Building teachers' research literacy: integrating practice and research', *Research Papers in Education*, 32(4), 403–23.

Francis, B., Archer, L. Moote, J., de Witt, J. a Yeomans, L. (2016) 'Femininity, science, and the denigration of the girly girl', *British Journal of Sociology of Education,* 38(8), 1097-110

Freeman, M. (2014) *The Future of Children's Rights*, Brill/Nijhoff

Gatley, J. (2020), Can the New Welsh Curriculum achieve its purposes? The Curriculum Journal, 31, 202–14.https://doi.org/10.1002/curj.26

Graham, P. (2019) Thoughts from Pat Graham on representation on picture books https://learning.edbookfest.co.uk/wp-content/uploads/2019/03/Thoughts-from-Pat-Graham- on-representation.pdf 28/8/2019

Greenwell, B. (2004) The curious incidence of novels about Asperger's' syndrome, *Children's Literature in Education*, 35(3), 271–85

Gritti A., Bravaccio C., Signoriello S., Salerno F., Pisano S., Catone G., Gallo, C., a Pascotto, A. (2014) 'Epidemiological study on behavioural and emotional problems in developmental age: prevalence in a sample of Italian children, based on parent and teacher reports', *Italian Journal of Pediatrics* 40:19

Hankivsky, O. (2014) *Intersectionality 101.* Canada: The Institute for Intersectionality Research & Policy

Hanson, K. (2018) "'Global/local' research on children and childhood in a 'global society'", *Childhood*, 25(3), 272–96

Hoffman, M. (1984) 'Growing up: a survey', *Children's Literature in Education,* 15(3), 171–85

Iqbal, H., Neal, S. a Vincent, C. (2017) 'Children's friendships in super-diverse localities: Encounters with social and ethnic difference', *Childhood*, 24(1), 128-142

James, A. a James, A. (2012) *Key Concepts in Childhood Studies*, Sage

James, A. a Prout, A. (2015) (eds) *Constructing and Reconstructing Childhood: Contemporary Issues in the Sociological Study of Childhood* (2nd edition), London: Routledge

Jayne, M. a Valentine, G. (2017) '"It makes you go crazy": Children's knowledge and experience of alcohol consumption', *Journal of Consumer Culture,* 17(1), 85–104

Kehily, M. J. (2013) *Understanding Childhood: A Cross Disciplinary Approach*, 2nd ed., (Open University Childhood Series), Bristol: the Policy Press

Kirby, Perpetua (2019) 'Children's Agency in the Modern Primary Classroom', *Children & Society*, 34(1), 17–30

Knight, C., Clegg, Z., Conn, C., Hutt, M. a Crick, T. (2022), 'Aspiring to include versus implicit "othering": teachers' perceptions of inclusive education in Wales', *British Journal of Special Education*, 49, 6–23.
https://doi.org/10.1111/1467-8578.12394

Knight, C., a Crick, T. (2022), 'Inclusive Education in Wales: Interpreting Discourses of Values and Practice Using Critical Policy Analysis', *ECNU Review of Education*, 5(2), 258–83.

Kraftl P (2013) 'Beyond "voice", beyond "agency", beyond "politics"? Hybrid childhoods and some critical reflections on children's emotional geographies', *Emotion, Space and Society* 9, 13–23.

Lancy, David (2008) *The Anthropology of Childhood: Cherubs, Chattel, Changelings*, Cambridge University Press

Leonard, Madeleine (2016) *The Sociology of Children, Childhood and Generation*, London: Sage

Lundy, Laura (2018) 'In defence of tokenism? Implementing children's right to participate in collective decision-making', *Childhood*, 25(3), 340–54

Llywodraeth Cynulliad Cymru *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*, gw. https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents/welsh

Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun Gweithredu 2017–21*, gw. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf

Llywodraeth Cymru (2020) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, DiweddariadHydref2020*,gw.https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl-diweddariad-hydref-2020-html

Llywodraeth Cymru (2021) Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, gw.: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-05/addysg-gyrfaoedd-a-phrofiadau-sy-n-gysylltiedig-a-byd-gwaith-dogfen-ymgynghori.pdf

Llywodraeth Cymru (2022) Datblygu Gweledigaeth ar gyfer Cynllunio Cwricwlwm, gw.:

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm.

Llywodraeth Cymru (2023) *Cenhadaeth ein Cenedl, safonau a dyheadau uchel i bawb* (2023),gw.https://www.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-dyheadau-uchel-i-bawb-html

Martenova Charles, V. (2009) *Fairy tales in the Classroom.* Brighton: Fitzhenry and Whiteside

Percy-Smith, B., a Thomas, N. (eds.) (2010) *A Handbook of Children and young People's Participation: Perspectives from Theory and Practice*, London: Routledge.

Prout, Alan (2019) 'In defence of Interdisciplinary Childhood Studies', *Children & Society*, 33, 309–15

Qvortrup, J., Corsaro, W. Honig, M.S. (2009) *The Palgrave Handbook of Childhood Studies*, Basingstoke: Palgrave Macmillan

Renold, E., Ringrose, J. ac Egan, R.D. (2015) *Children, sexuality and sexualization,* London: Palgrave Macmillan

Roberts (2023): 'Exploring the Discursive Construction of National Identity Through the Building of the New Curriculum for Wales' https://doi.org/10.16922/wje.25.1.3

Spyrou, S. (2018) 'Emerging scholars of Childhood Studies', *Childhood*, 25(4), 422–42 Tisdall, E. K. M., a Punch, S. (2012). 'Not so "new"? Looking critically at childhood studies', *Children's Geographies,* 10(3), 249–64.

Twum-Danso Imoh, Afua (2013) 'Children's perceptions of physical punishment in Ghana and the implications for children's rights', *Childhood*, 20(4), 472–86

Uprichard, Emma (2008) 'Children as "Being and Becomings": Children, Childhood and Temporality', *Children & Society*, 22(4), 303–13

UNICEF (1989) *The United Nations Convention on the Rights of the Child*, gw. https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/

Wilkinson S., Waller R., Viding E. (2016) 'Practitioner review: involving young people with callous unemotional traits in treatment--does it work? A systematic review', *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 57:552–65.